Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Gylch Chwarae'r Waun**
**Neuadd y Plwyf**
**Ffordd Caergybi**
**Y Waun**
**Wrecsam**
**LL14 5NA**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/08/2017**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yn awdurdod lleol Wrecsam yw Cylch chwarae cyn-ysgol Y Waun. Mae wedi ei leoli yn Neuadd y Plwyf yn Y Waun ac wedi'i gofrestru i ddarparu gofal sesiynol ar gyfer uchafswm o 26 o blant rhwng dwy oed a hanner a phedair oed. Defnyddir y neuadd yn rheolaidd gan grwpiau cymunedol eraill, felly mae angen i offer gael ei osod a'i roi i'w gadw ar gyfer pob sesiwn dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd 33 o blant ar y gofrestr yn ystod yr arolygiad. Mae dau ddeg pump o'r rhain yn dair oed, ac mae 16 ohonynt yn derbyn cyllid y blynyddoedd cynnar gan yr awdurdod lleol. Mae tri aelod o staff yn gweithio yn y lleoliad yn rheolaidd. Mae gan bob un ohonynt gymwysterau priodol ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Mae'r goruchwyliwr wedi bod yn ei swydd er 2015.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn dod o'r ardal leol. Saesneg yw'r iaith y mae pob un ohonynt yn ei siarad gartref, ac nid yw'r un ohonynt yn dod o gartrefi Cymraeg. Mae'r lleoliad wedi nodi mai ychydig iawn o blant ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n mynychu ar hyn o bryd.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Nhachwedd 2014 a chan Estyn ym Mawrth 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cyson ar draws pob maes dysgu
- Mae bron pob un o'r plant yn awyddus i ddysgu
- Mae bron pob un o'r plant yn dangos lefelau da o ganolbwyntio ac ymgysylltiad yn eu dewis o weithgareddau
- Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu medrau meddwl yn dda
- Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon cymryd eu tro
- Mae'r lleoliad yn elwa ar berthnasoedd cryf lle mae oedolion a phlant yn rhannu ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i ddarparu cwricwlwm cytbwys a diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant

### Rhagolygon gwella

- Mae goruchwyliwr y lleoliad yn darparu gweledigaeth a chyfeiriad clir
- Mae'r pwyllgor rheoli yn cefnogi'r lleoliad yn effeithiol
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i sicrhau bod y broses hunanarfarnu yn effeithiol ac yn nodi anghenion y lleoliad yn llwyddiannus
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn adeiladol i ysgogi gwelliannau gwerth chweil
- Mae'r lleoliad yn elwa ar gymorth a chyngor yr awdurdod lleol
- Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â rhieni a'r gymuned leol

## Argymhellion

A1 Gwella defnydd y plant o'r Gymraeg

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i blant wneud penderfyniadau am eu dysgu

A3 Rhoi mwy o wybodaeth i rieni am y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u gwahanol fannau cychwyn yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn cyrraedd yn llawn cyffro ar gyfer y sesiwn sydd o'u blaenau ac yn cymryd rhan yn llawn yn eu dewis o weithgareddau.

Wrth wrando ar stori, mae bron pob un o'r plant yn eistedd yn dawel ac astud, gan ddangos diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd. Er enghraifft, maent yn gweiddi'n llawen bob tro mae Handa yn colli darn arall o ffrwyth o'i het ac yn adnabod y gwahanol ffrwythau yn falch. Mae llawer o blant yn defnyddio llyfrau yn annibynnol wrth iddynt chwarae. Maent yn eu trin a'u trafod yn ofalus ac yn troi tudalennau'n gywir.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd gwerth chweil â'u medrau ysgrifennu cynnar. Maent yn mwynhau creu marciau mewn gwahanol ffyrdd gan ddefnyddio ystod o offer, fel cribinau yn y tywod, rholeri mewn toes chwarae neu gyda'u bysedd mewn hambyrddau o flawd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos eu dealltwriaeth o ddiben ysgrifennu pan fyddant yn creu marciau i lofnodi eu henw ar gerdyn ar gyfer Dydd Santes Dwynwen.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn defnyddio iaith fathemategol yn gywir, er enghraifft wrth siarad am wahanol gynwysyddion sy'n 'drwm' neu'n 'ysgafn' wrth iddynt eu llenwi â thywod neu ddŵr. Mae bron pob un ohonynt yn defnyddio terminoleg gywir ar gyfer siapiau syml pan fyddant yn trafod y teils carped y maent yn eistedd arnynt yn ystod cyfnodau grŵp neu adnabod a rhoi rhifau i bump yn eu trefn yn hyderus.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau corfforol yn dda, er enghraifft pan fyddant yn defnyddio tongiau mawr i'w helpu eu hunain i ffrwythau amser byrbryd â medr cynyddol. Maent yn llywio beiciau a sgwteri yn ofalus y tu allan, gan osgoi offer a phlant eraill yn llwyddiannus.

Mae llawer o blant yn defnyddio ystod o dechnoleg yn fedrus. Defnyddiant gyfrifiadur llechen i dynnu ffotograffau a fideos o weithgareddau yn y sesiwn a phwyso botymau yn hyderus ar offer yn y gegin chwarae i wneud prydau bwyd a diodydd i'w gilydd a'u hathrawon.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau da o ran datrys problemau, er enghraifft pan fyddant yn ceisio achub Ticw y tedi sy'n sownd ar ben coeden ffa Jac. Maent yn ystyried y mater yn ofalus ac yn gwneud awgrymiadau synhwyrol ac ymarferol, er enghraifft i dorri'r goeden ffa i lawr neu i daflu gwrthrychau i ryddhau Ticw.

Mae bron pob un o'r plant yn ymateb i ganeuon Cymraeg cyfarwydd yn frwdfrydig, ac yn ymuno ynddynt. Maent yn cyfrif gyda'i gilydd ar goedd yn Gymraeg i ddeg ac yn ymateb i arferion dyddiol fel 'amser tacluso' a 'golchi dwylo'. Fodd bynnag, nid yw plant yn defnyddio geiriau Cymraeg yn ddigymell yn ystod chwarae rhydd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn ymgymryd yn llawn â'u dysgu ac yn dangos lefelau uchel o gymhelliant a ffocws. Er enghraifft, wrth chwarae gyda'i gilydd yng nghuddfan y jyngl, mae plant yn trefnu eu hunain gan ymgymryd â gwahanol rolau wrth iddynt hela am anifeiliaid y jyngl.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau annibynnol da, er enghraifft wrth wisgo ffedogau i beintio neu chwarae â'r dŵr, neu wrth helpu eu hunain i ffrwythau gan ddefnyddio tongiau amser byrbryd. Maent yn awyddus i roi cynnig ar brofiadau newydd ac mae llawer ohonynt yn dangos eu hyder wrth ddefnyddio offer i drefnu eu gweithgareddau eu hunain pan fyddant yn mynd â thoes i'r gegin chwarae i'w ddefnyddio fel bwyd esgus.

Mae perthnasoedd yn gryf yn y lleoliad. Mae plant yn gwrtais ac yn barchus at oedolion ac maent yn gwybod y dylent rannu a chymryd eu tro â'i gilydd. Maent yn deall rheolau'r lleoliad ac yn ymddwyn yn dda.

Mae bron pob un o'r plant yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut gallant aros yn iach. Maent yn gwybod ei bod yn bwysig golchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl defnyddio'r toiled i wneud yn siŵr eu bod yn golchi'r germau oddi arnynt neu gallent fynd yn sâl. Maent yn brwsio eu dannedd yn frwdfrydig ar ddechrau pob sesiwn ac yn mwynhau eu ffrwyth amser byrbryd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i gynllunio profiadau newydd ar gyfer y plant. Maent yn trafod themâu a gweithgareddau, y maent yn eu gweddu'n agos i anghenion dysgu'r plant ac i ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r mwyafrif o ddysgu'r plant yn digwydd yn yr awyr agored ble bynnag y bo modd. Mae hon yn nodwedd gref yn y lleoliad. Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o offer a phrofiadau sy'n cynnig cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel ar gyfer y plant. Mae'r rhain yn ysgogol ac yn berthnasol i'r plant ac maent yn ennyn eu diddordeb yn y dysgu yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae plant nid yn unig yn dysgu ond yn magu hunanhyder ac annibyniaeth werthfawr. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant wneud awgrymiadau am yr hyn yr hoffent ei wneud.

Mae gweithgareddau wedi'u cynllunio yn herio plant i ymchwilio a dysgu yn llwyddiannus. Maent yn cwmpasu ystod lawn y meysydd dysgu gyda ffocws cadarnhaol ar fedrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae cynllunio yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn dda hefyd. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn gwella adnabyddiaeth plant o rifau trwy eu herio i dywallt dŵr i ddewis o dwmffedi a dyfalu pa fwced wedi'i rifo y bydd yn ei lenwi. Mae cynllunio penodol ar gyfer medrau plant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n effeithiol.

Mae ystod ddiddorol o ymweliadau ac ymwelwyr yn cyfrannu'n dda at brofiadau dysgu plant. Er enghraifft, mae ymweliad diweddar â Chastell Y Waun, ymweliad â'r orsaf dân leol ac ymweliadau gan wenynwr i gyd yn ychwanegu diddordeb ac

amrywiaeth at y cwricwlwm.  Mae dathlu gwyliau fel y Flwyddyn Newydd Dsieineaidd, Diwali ac Eid, yn cyfrannu'n fuddiol at ddealltwriaeth plant o'r byd o'u cwmpas ac yn hyrwyddo goddefgarwch a dealltwriaeth.

Mae ymarferwyr yn cyflwyno plant i eirfa ac ymadroddion Cymraeg syml.  Maent yn annog plant i gyfrif a chanu ystod o ganeuon cyfarwydd yn Gymraeg.  Fodd bynnag, nid ydynt yn atgyfnerthu hyn yn gyson trwy gydol y sesiynau.  Caiff plant gyfleoedd priodol i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy eu gweithgareddau ar Ddydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu:  Da**

Mae ymarferwyr yn cymryd rhan yn llawn gyda'r plant yn ystod y sesiynau.  Mae cyflymdra da i sesiynau grŵp ac fe gânt eu rheoli'n dda.  Mae gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr yr ymarferwyr o egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau eu bod yn darparu cymorth ble mae angen ond maent hefyd yn gwybod pryd i sefyll yn ôl a galluogi plant i archwilio ac ymchwilio drostyn nhw eu hunain.  O ganlyniad, mae plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn gwneud dewisiadau'n hyderus.  Mae pob ymarferwr yn defnyddio cwestiynau penagored yn fedrus i hyrwyddo ffordd plant o feddwl.  Mae pob ymarferwr yn goruchwylio ymddygiad plant yn dda wrth iddynt annog plant i ddilyn rheolau syml y lleoliad a darparu ystod o brofiadau ysgogol i sicrhau bod plant yn cymryd rhan yn llawn yn eu dewis o weithgareddau.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau gwerth chweil i asesu ac olrhain cynnydd plant.  Mae ymarferwyr yn gwneud arsylwadau defnyddiol o'r plant, y maent yn nodi oddi wrthynt unrhyw anghenion pellach neu'r camau nesaf mewn dysgu.  Defnyddiant y wybodaeth hon yn bwrpasol i lywio cynllunio ar gyfer y dyfodol.  Fel hyn, gall ymarferwyr ddarparu cymorth ar gyfer y plant hynny sydd angen atgyfnerthu pellach, a chyfleoedd i'r plant mwy abl symud ymlaen.  Er bod gan y cylch chwarae weithdrefnau priodol i roi gwybod i rieni am y cynnydd y mae eu plentyn wedi ei wneud pan fydd yn gadael y lleoliad, nid oes trefniadau iddynt wybod pa mor dda y mae eu plentyn yn gwneud yn ystod ei gyfnod yn y lleoliad, na sut y gallant ei helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynnes a gofalgar ac mae'r ymarferwyr yn rhoi blaenoriaeth uchel i les plant.  Mae pob ymarferwr yn trin y plant â pharch ac yn annog eu hunigoliaeth.  Mae gweithdrefnau sefydledig yn annog plant i ddeall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.  Yn ystod amser byrbryd, mae plant yn mwynhau detholiad amrywiol o fyrbrydau iach gyda dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed.  Mae plant yn brwsio eu dannedd yn y lleoliad bob bore ac mae cyfleoedd defnyddiol iddynt wneud ymarfer corff dan do a'r tu allan fel ei gilydd.  Mae'r lleoliad yn ailgylchu cartonau llaeth ac mae plant yn arbed bwyd dros ben i'w ychwanegu at eu biniau compost yn yr ardd ac i'w fwydo i'r abwydfa.  Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn deall bod y pryfed genwair yn helpu i droi'r bwyd yn bridd y gallant ei ddefnyddio ar gyfer eu plannu.  Trwy wneud hyn, mae plant yn ennill dealltwriaeth uniongyrchol o gynaliadwyedd a'r rhan y gallan nhw ei chymryd yn hyn.

Mae ymarferwyr yn sicrhau datblygiad moesol, cymdeithasol, diwylliannol ac ysbrydol plant yn llwyddiannus.  Maent yn annog plant i rannu, cymryd eu tro a bod yn garedig

â'i gilydd yn gyson ac yn cefnogi eu datblygiad ysbrydol yn briodol trwy hyrwyddo ennyd tawel cyn byrbryd pan fyddant yn dweud gweddi o ddiolch.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu cymorth effeithiol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Pan fydd angen, mae gan blant gynlluniau chwarae unigol gyda thargedau personol. Mae ymarferwyr yn rhannu'r rhain gyda rhieni ac yn adolygu cynnydd yn rheolaidd. Mae cysylltiadau buddiol ag asiantaethau allanol yn darparu cymorth a chyngor ychwanegol defnyddiol. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ddiogel a gofalgar ble caiff yr holl blant eu gwerthfawrogi a'u trin â pharch. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda fel unigolion ac maent yn sicrhau eu bod yn cael yr un cyfle i elwa ar yr holl brofiadau dysgu.

Mae'r neuadd a ddefnyddir gan y lleoliad yn olau ac eang. Er bod yn rhaid rhoi popeth i'w gadw bob dydd, mae ymarferwyr yn sicrhau bod adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu sy'n bodloni anghenion y plant yn effeithiol. Mae plant yn defnyddio'r ardal yn yr awyr agored bob dydd. Mae'r holl ardaloedd dysgu yn cynnwys gweithgareddau difyr i'r plant, a cheir ardaloedd gwasgaredig a blannwyd gan y plant â blodau, ffrwythau a llysiau. Mae adnoddau ar gael yn rhwydd ac mae'r plant yn eu defnyddio'n annibynnol yn ystod eu chwarae.

Nid yw'r neuadd yn caniatáu arddangosfeydd o waith plant. Fodd bynnag, mae ymarferwyr wedi creu bwrdd symudol ble maent yn arddangos ffotograffau o waith a gweithgareddau diweddar plant. Mae hyn yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni am y gweithgareddau y mae eu plant yn eu mwynhau yn y lleoliad.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y goruchwyliwr weledigaeth gref i ddarparu'r safon orau o ofal ac addysg ar gyfer y plant yn y lleoliad, ac mae'n darparu cyfeiriad clir ar gyfer ei thîm. Mae'n cynnwys aelodau eraill o staff yn effeithiol mewn cynllunio a gwneud penderfyniadau. Mae ymarferwyr yn gwybod bod eu syniadau a'u hawgrymiadau'n cael eu gwerthfawrogi, ac o ganlyniad, maent yn gweithio'n galed a dangosant gymhelliant ac ymrwymiad cryf i ddarparu profiadau o ansawdd uchel i'r plant. Mae gan yr holl ymarferwyr swydd ddisgrifiadau cyfoes sy'n sicrhau eu bod yn gwybod eu rolau ac yn rhannu cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn canolbwyntio'n dda ar gynllunio ac asesu cynnydd plant. Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn agos i ysgogi gwelliannau. O ganlyniad, mae sesiynau'n rhedeg yn esmwyth ac mae plant yn gwneud cynnydd da.

Mae'r pwyllgor rheoli yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn darparu cymorth cadarnhaol i'r lleoliad. Mae adolygiadau rheoli perfformiad blynyddol yn dechrau datblygu'n briodol. Mae'r adolygiadau diweddar yn nodi cryfderau ac anghenion hyfforddi unigol ymarferwyr yn briodol, ac yn arwain at dargedau ar y cyd sy'n gysylltiedig â chynllun gweithredu'r lleoliad.

Mae ymarferwyr yn rhoi sylw da i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Maent wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r amgylchedd dysgu awyr agored ysgogol ac maent yn canolbwyntio'n gyson ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae ymarferwyr yn adnabod eu lleoliad yn dda. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cynnydd y plant ac agweddau ar y ddarpariaeth sy'n arwain at newidiadau buddiol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r plant. Er enghraifft, yn ddiweddar, mae ymarferwyr wedi aildrefnu eu gweithdrefnau ar gyfer cofnodi arsylwadau o gynnydd plant. O ganlyniad, maent yn nodi camau nesaf y plant mewn dysgu yn fwy effeithiol.

Mae'r lleoliad wedi sefydlu proses hunanarfarnu glir ac effeithiol. Mae ymarferwyr yn cynnal adolygiad blynyddol yn dilyn canllawiau gan yr awdurdod lleol. Mae eu sgyrsiau dyddiol rheolaidd yn sicrhau ymhellach fod pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth glir o sut yr hoffent wella. O hyn, maent yn nodi nifer hylaw o dargedau perthnasol ac ystyrlon ar gyfer gwella. Maent yn nodi pwy fydd yn gyfrifol, graddfeydd amser a meini prawf llwyddiant penodol. Mae ymarferwyr wedi gwneud cynnydd da tuag at fodloni'r targedau hyn, er enghraifft o ran datblygu medrau TGCh plant.

Mae'r lleoliad yn ymgynghori â rhieni bob blwyddyn trwy holiadur. Mae arweinwyr wedi ymateb yn briodol i awgrymiadau rhieni, gan gynnwys gwella rhannu gwybodaeth trwy sefydlu tudalen cyfryngau cymdeithasol. Yn fwy diweddar, mae ymarferwyr wedi sefydlu gwasanaeth 'bws cerdded' i fynd â phlant i leoliad prynhawn sydd wedi ei leoli yn yr ysgol leol. Mae hyn yn galluogi rhieni i fanteisio ar ofal cofleidiol ar gyfer eu plant.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi sefydlu ystod werthfawr o bartneriaethau gwerth chweil i wella ei ddarpariaeth, ac mae'r plant yn elwa ar hyn. Mae ymarferwyr wedi meithrin perthynas fuddiol gydag athro ymgynghorol yr awdurdod lleol sy'n darparu cymorth ac arweiniad defnyddiol. Er enghraifft, o ganlyniad i gyngor buddiol, mae ymarferwyr wedi adolygu eu proses asesu ac wedi rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith sy'n eu galluogi i olrhain cynnydd plant yn effeithiol.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth gref â rhieni, sy'n canmol y ddarpariaeth. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybodaeth gyson i rieni a gofalwyr am yr hyn y mae'r plant yn ei wneud. Mae rhieni'n croesawu'r wybodaeth a gânt drwy sgyrsiau dyddiol, y cyfryngau cymdeithasol, trwy'r hysbysfwrdd dyddiol a'r ffotograffau rheolaidd sy'n cael eu harddangos o'r plant yn ymgymryd â'u gweithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn y lleoliad yn symud ymlaen i'r dosbarth meithrin yn yr ysgol gynradd gyfagos. Mae'r lleoliad wedi gweithio gyda'r ysgol yn ddiweddar i lunio polisi pontio sy'n cynnwys manylion am drefniadau i gynorthwyo plant wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Er enghraifft, cynhaliodd yr ysgol noson goffi i rieni gyfarfod â'r athrawes ddosbarth a chael gwybodaeth am yr hyn y bydd eu plentyn yn ei ddysgu yn ei leoliad newydd. Mae'r athro ymgynghorol sy'n ymweld yn aelod o staff yn yr ysgol, sy'n fantais ychwanegol i'r broses bontio gan fod y plant wedi dod i'w hadnabod yn dda trwy ei hymweliadau rheolaidd.

Mae’r lleoliad yn rhan amlwg o’r gymuned leol, ac mae hyn yn cefnogi dysgu’r plant yn dda. Er enghraifft, trefnodd ymarferwyr ymweliad â’r orsaf dân fel rhan o’u thema am ‘Bobl Sy’n Ein Helpu Ni’. Mae sefydliadau lleol wedi cyfrannu arian ac offer yn ddiweddar, fel pren ar gyfer y gwelyau blodau a llysiau a chyfrifiaduron llechen android i wella dealltwriaeth y plant o dechnoleg yn uniongyrchol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad nifer ddigonol o ymarferwyr cymwys a phrofiadol i sicrhau addysgu o ansawdd da ar gyfer y plant. Mae ymarferwyr yn mynychu hyfforddiant perthnasol gan yr awdurdod lleol yn rheolaidd. Maent yn rhannu syniadau â’i gilydd yn anffurfiol fel rhan o’u rhyngweithio bob dydd.

Mae gan y lleoliad gyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da y mae ymarferwyr yn eu defnyddio’n dda i gefnogi dysgu’r plant. Mae ymarferwyr yn eu lleoli eu hunain yn effeithiol yn ystod sesiynau i ddarparu arweiniad a chyfeiriad o ansawdd da i’r plant, a gwneud defnydd effeithiol o’u harbenigedd personol.

Mae ymarferwyr wedi gweithio’n ddiwyd i ddatblygu eu hardal yn yr awyr agored ac mae’r awdurdod lleol wedi cydnabod yr effaith gadarnhaol a gaiff hyn ar brofiadau dysgu’r plant. O ganlyniad, mae ymarferwyr wedi croesawu ymwelwyr o sawl lleoliad i rannu eu harfer dda.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn goruchwylio’r gyllideb yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn ystyried yr holl wariant yn ofalus i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol, a’r effaith ar ddysgu plant.

Yng ngoleuni’r deilliannau da a gyflawnir gan y rhan fwyaf o’r plant, ac ansawdd y ddarpariaeth, mae’r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i’r holiadur i rieni

Mae’n dynodi’r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 16 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 79% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 16 | 14 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 16 | 15 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 16 | 13 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 16 | 11 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 71% | 28% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 16 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 83% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 13 | 3 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 16 | 16 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 16 | 13 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 81% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 16 | 7 | 8 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 44% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 16 | 14<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 16 | 11<br>69% | 4<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 65% | 32% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 63% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 18% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mrs Mary Dyas | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |